TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Gorffennaf 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

"A wnewch chi roi'r data canlynol i mi ar gyfer y tair blynedd diwethaf mewn perthynas â Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig:-

- Nifer y gwrandawiadau disgyblu sy'n ymwneud ag unrhyw fath o ymosodiad
- Nifer y gwrandawiadau hynny yr ymdriniwyd â hwy fel camymddwyn difrifol
- Nifer y gwrandawiadau hynny a arweiniodd at ddiswyddo yn y fan a'r lle
- Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny, hy nifer y rhybuddion ysgrifenedig terfynol, nifer y rhybuddion ysgrifenedig cyntaf ac ati.
- Nifer y gwrandawiadau camymddwyn difrifol (ac eithrio ymosodiadau)
- Nifer y gwrandawiadau hynny a arweiniodd at ddiswyddo yn y fan a'r lle
- Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny, fel yr uchod
- Nifer y bobl sydd wedi gadael y busnes drwy unrhyw fath o gyfaddawd neu gytundeb setlo

**Atebion i'ch Cwestiynau:**

Er mwyn egluro pam nad yw rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael, yn gyntaf mae angen egluro'r berthynas rhwng Trenau Arriva Cymru, KeolisAmey Operations Ltd (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru), Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Trenau Arriva Cymru oedd yn rhedeg masnachfraint Cymru a'r Gororau rhwng mis Rhagfyr 2003 a mis Hydref 2018, pan ddyfarnwyd y fasnachfraint i KeolisAmey Operations Ltd, a gychwynnodd fasnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Sefydlwyd Cytundeb Grant rhwng KeolisAmey a Llywodraeth Cymru, yn amlinellu eu rhwymedigaethau fel gweithredwyr y fasnachfraint.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn is-gwmni nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, a chyn mis Chwefror 2021 rhan allweddol o'n cylch gwaith oedd rheoli'r Cytundeb Grant gyda KeolisAmey ar ran Llywodraeth Cymru.

Nid KeolisAmey yw gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau mwyach, yn dilyn cwymp mewn refeniw a gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19. Ar 7 Chwefror 2021, rhoddwyd y cyfrifoldeb am reoli'r fasnachfraint o ddydd i ddydd i Weithredwr Pan Fetha Popeth Arall (OLR) Llywodraeth Cymru, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf (is-gwmni Trafnidiaeth Cymru) a rhoddodd Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru y gorau i weithredu.

Yn benodol, mae Trafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn sefydliadau sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; ond fel cwmni sector preifat,

nid oedd hyn yn wir am KeolisAmey. Fodd bynnag, pan oedd KeolisAmey yn cadw gwybodaeth ar ran Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb Grant, cafodd yr wybodaeth honno ei rhannu â Trafnidiaeth Cymru er mwyn ateb cais a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Nid yw data blaenorol yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ionawr - 13 Hydref 2018, pan oedd Trenau Arriva Cymru yn gweithredu masnachfraint Cymru a'r Gororau, ar gael i Trafnidiaeth Cymru.

Nid yw data sy'n ymwneud â'r cyfnod 14 Hydref 2018 – 6 Chwefror 2021 yn destun y Dfeddf Rhyddid Gwybodaeth gan nad yw gwybodaeth sy'n ymwneud â chamymddwyn staff yn wybodaeth roedd KeolisAmey yn ei dal ar ran Trafnidiaeth Cymru. Roedd y wybodaeth hon y tu hwnt i baramedrau'r Cytundeb Grant ac yn hytrach, roedd KeolisAmey yn cadw'r wybodaeth fel cwmni preifat. O'r herwydd, nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gallu darparu'r wybodaeth hon dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Os ydych chi'n dymuno cael y wybodaeth hon, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â Keolis UK, er y dylid nodi nad ydynt yn rhwym wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel cwmni yn y sector preifat.

Mae'r wybodaeth ar gyfer y cyfnod 7 Chwefror 2021 - hyd heddiw fel a ganlyn:

<u>Nifer y gwrandawiadau disgyblu sy'n ymwneud ag unrhyw fath o ymosodiad</u>
1

<u>Nifer y gwrandawiadau hynny yr ymdriniwyd â hwy fel camymddwyn difrifol</u>
1

<u>Nifer y gwrandawiadau hynny a arweiniodd at ddiswyddo yn y fan a'r lle</u>
1

<u>Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny, hy nifer y rhybuddion ysgrifenedig terfynol/cyntaf ac ati</u>
1 x diswyddiad yn y fan a'r lle, fel yr uchod

<u>Nifer y gwrandawiadau camymddwyn difrifol (ac eithrio ymosodiadau)</u>
5

<u>Nifer y gwrandawiadau hynny a arweiniodd at ddiswyddo yn y fan a'r lle</u>
2

<u>Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny, fel yr uchod</u>
2 x diswyddiad y fan a'r lle (fel uchod), 2 x rhybudd ysgrifenedig terfynol, 1 x ymddiswyddiad

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".